***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1366

# Rheoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddi) (Cymru) 2015

**Tynnu awdurdodiad yn ôl**

**7.**—(1) Caiff awdurdod trwyddedu dynnu awdurdodiad yn ôl os yw'r darparwr hyfforddiant—

(a) wedi methu ag ufuddhau i amod a osodwyd ar ei awdurdodiad gan yr awdurdod trwyddedu; neu

(b) wedi peidio â bod yn ddarparwr hyfforddiant priodol.

(2) Pan fo'r awdurdod trwyddedu yn cynnig tynnu awdurdodiad yn ôl, rhaid i'r awdurdod trwyddedu roi hysbysiad ysgrifenedig i'r darparwr hyfforddiant sy'n nodi—

(a) y rhesymau am y cynnig; a

(b) hawl y darparwr hyfforddiant i gyflwyno sylwadau o dan baragraff (3) ynghylch y cynnig.

(3) Pan fo'r awdurdod trwyddedu yn rhoi hysbysiad i'r darparwr hyfforddiant o dan baragraff (2)—

(a) caiff y darparwr hyfforddiant, yn ddim hwyrach na'r cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir hysbysiad o dan baragraff (2), gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r awdurdod trwyddedu ynghylch y cynnig;

(b) ni chaiff yr awdurdod trwyddedu benderfynu pa un ai i dynnu awdurdodiad yn ôl ai peidio nes i'r cyfnod y cyfeirir ato yn is-baragraff (a) ddod i ben; ac

(c) os cyflwynir unrhyw sylwadau o fewn y cyfnod y cyfeirir ato yn is-baragraff (a), rhaid i'r awdurdod trwyddedu ystyried y sylwadau hynny cyn penderfynu pa un ai i dynnu'r awdurdodiad yn ôl ai peidio.

(4) Wrth wneud penderfyniad i dynnu awdurdodiad darparwr hyfforddiant yn ôl, rhaid i'r awdurdod trwyddedu roi hysbysiad ysgrifenedig i'r darparwr hyfforddiant a rhaid i'r hysbysiad nodi—

(a) y dyddiad y mae'r tynnu'n ôl, yn ddarostyngedig i baragraff (3), yn cael effaith; a

(b) y rhesymau am y penderfyniad i dynnu'r awdurdodiad yn ôl.

(5) Nid yw paragraffau (2) i (4) yn gymwys os yw'r awdurdod trwyddedu—

(a) wedi ei fodloni, oherwydd camymddwyn difrifol ar ran y darparwr hyfforddiant neu berson sy'n gweithredu ar ran neu o dan gyfarwyddyd y darparwr hyfforddiant, bod rhaid tynnu'r awdurdodiad yn ôl yn ddi-oed; a

(b) yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r darparwr hyfforddiant i'r perwyl hwnnw sy'n nodi natur y camymddwyn difrifol.